OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 938 (Cy. 164)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn y Cod Ymarfer mewn perthynas â Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2019

*Gwnaed - - - - 14 Mai 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014")(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan adran 146(1) o Ddeddf 2014, wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn meddwl eu bod yn addas ynghylch drafft o'r cod.

Yn unol ag adran 146(2) o Ddeddf 2014, gosodwyd drafft o'r cod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am 40 niwrnod.

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Ymarfer mewn perthynas â Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2019.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y cod" yw'r cod ymarfer mewn perthynas â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 17 Mai 2019.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Y diwrnod penodedig i'r cod ddod i rym yw 20 Mai 2019.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2019

(**1**) 2014 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi codau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y cod.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1339 (Cy. 261)) ("y Rheoliadau") (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2019 (O.S. 2019/545 (Cy. 119)) yn gosod gofynion ar ddarparwyr a rheolwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau maethu.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol ("y cod") yn nodi canllawiau ar sut y caiff darparwyr a rheolwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau. Dyroddwyd y cod gan Weinidogion Cymru ar 17 Mai 2019. Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 20 Mai 2019 fel y diwrnod y daw'r cod i rym.